



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

HAWDD EI DDEALL

Cymru'n Arloesi: Creu Cymru Gryfach, Decach, A Gwyrddach



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Llywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cymru'n Arloesi: Creu Cymru Gryfach, Decach, A Gwyrddach**'.

Chwefror 2023

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dyma ddogfen hawdd ei darllen. Ond efallai y byddwch angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd eu deall. Gallwch weld beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 50**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:



E-bost: **strategaetharloesi@llyw.cymru**



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd i'w deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, **cliciwch yma**.

Cynnwys:

Cyflwyniad	2
Beth rydyn ni ei eisiau i Gymru	4
Addysg Gwell	7
Economi mwy cryf	12
Gofal iechyd da	25
Meddwl am ein planed a gofalu amdani	36
Geiriau anodd	50

Daw'r lluniau yn y ddogfen hon o Photosymbols:
www.photosymbols.com/

Cyflwyniad

Dyma'r Cynllun **Arloesi** newydd i **Gymru**.



Mae **arloesi'n** meddwl datblygu syniadau newydd yn gynnyrch a gwasanaethau. Mae'n gallu meddwl dyfeisio pethau newydd. Neu gwneud i bethau hyn weithio'n well.

Mae'r cynllun yma yn edrych ar:



- y cynnyrch a gwasanaethau Cymru mae yn dda am wneud;
- a'r hyn sydd angen mwy o **ymchwil**.

Mae **ymchwil** yn meddwl edrych i mewn i rywbeth, neu brofi rhywbeth i'w ddeall yn fwy.



Mae'r rhan fwyaf o'r arian oedd gan Gymru ar gyfer **arloesi** wedi mynd ers **Brexit**. Brexit ydy pan adawodd y DU yr Undeb Ewropeaidd.

Rydyn ni eisiau meddwl am **arloesi'n** wahanol. Fe ddylai **arloesi**:



- gwneud pethau'n well i bobl;
- cynnwys pawb;
- bod yn hyblyg;
- cael pobl yn gweithio gyda'i gilydd.

Beth rydyn ni ei eisiau i Gymru



Rydyn ni eisiau i Gymru ddod yn fwy cryf, teg a gwyrdd. Mae bod yn fwy gwyrdd yn meddwl ei fod yn well i'n hamgylchedd.

Fe fydd hyn yn helpu i wella llesiant pobl Cymru.

Rydyn ni wedi rhannu ein cynllun yn 4 rhan:



- Addysg gwell;
- **Economi** mwy cryf.



Mae **economi'n** meddwl faint o arian sydd gan wlad. Mae'n meddwl sut mae pobl yn gwario arian ar bethau a gwasanaethau, a sut mae pobl yn gwneud arian. Os oes gan wlad fwy o arian, mae'n dda i bobl y wlad honno.



- Gofal iechyd da rydyn ni'n gallu ei fforddio am amser hir.



- Meddwl am ein planed a gofalu amdani.



Rydyn ni'n mynd i ysgrifennu cynllun gweithredu. Fe fydd yn nodi'r camau y mae angen i ni eu gwneud i'n helpu ni i gyflawni ein nodau yn y cynllun yma.

Rydyn ni'n gwybod bod **arloesi** yn cymryd amser. Fe fyddwn ni yn parhau i edrych ar, a mesur pa mor dda rydyn ni yn ei wneud gyda'r camau gweithredu.


Fe fyddwn ni yn edrych i weld sut mae pethau ar ôl blwyddyn 1 o'r cynllun yma.



Yna fe fyddwn ni yn gwneud gwerthusiadau llawn ym mlwyddyn 3 a 5 y cynllun yma. Fe fyddwn ni yn edrych i weld pa nodau rydyn ni wedi'u cyflawni. Ac edrych ar beth sydd angen ei wneud nesaf.

Fe fydd y gwaith yma yn cael ei oruchwyllo gan **Gyngor Ymgynghorol Arloesi Cymru**. Dyma grŵp o weithwyr proffesiynol annibynnol. Mae hyn yn meddwl nad ydyn nhw'n gweithio i Lywodraeth Cymru ac nad ydyn ni yn ei rheoli nhw. Fe fyddan nhw yn edrych ar ein gwaith ac yn gwneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein nodau.


Addysg Gwell



Rydyn ni eisiau cael system addysg sy'n cefnogi ac yn adeiladu sgiliau a gwybodaeth arloesi.

Fe fydd ysgolion yn cefnogi dysgwyr i fod yn gryf ac yn greadigol.

Fe fyddan nhw yn dysgu datrys problemau ac yn gweithio gyda gwybodaeth wahanol.



Mae gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg yn bynciau pwysig y mae ysgolion yn eu dysgu. Mae'r pynciau yma yn cael eu galw yn bynciau **STEM**.


Fe fydd y rhain yn sgiliau pwysig i blant yn y dyfodol.

Fe fydd ein **Cwricwlwm newydd i Gymru** yn gwneud yn siŵr bod ein plant yn dysgu'r pynciau a'r sgiliau pwysig yma. Mae'r **cwricwlwm** yn gynllun ar gyfer beth mae ysgolion yn ei ddysgu yng Nghymru.



Cydweithio drwy gyfrifiaduron a thechnoleg

Rydyn ni am wneud yn siŵr bod plant ifanc yn dysgu sut i ddefnyddio cyfrifiaduron a thechnoleg.



Rydyn ni wedi gwario arian ar wneud yn siŵr bod gan ysgolion ryngrwyd ac offer cyfrifiadurol da.

Mae Cymru'n mynd i gael sefydliad addysg newydd o'r enw'r **Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil**.

Mae hyn ar gyfer addysg pobl ifanc dros 16 oed.

Fe fydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod addysg a hyfforddiant yn cadw i fyny gyda'r sgiliau mae cyflogwyr yn chwilio amdany'n nhw.



Ymchwil

Mae **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** yn darparu 15 miliwn o bunnau ar gyfer **Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru**.

Fe fyddwn ni'n gweithio gyda nhw, a gyda sefydliadau eraill i ddod o hyd i fwy o arian.



Rydyn ni wedi rhoi arian i wahanol brosiectau **ymchwil**. Rydyn ni eisiau parhau i ariannu rhagor.

Fe fyddwn ni'n gweithio gyda busnesau a phrifysgolion ar **brosiectau arloesi** ac **ymchwil**.

Arloesi a swyddi

Mae **arloesi** yn gallu dod â mwy o swyddi a mwy o waith.

Fe ddysten ni helpu pobl sy'n gweithio mewn swyddi nawr na fydd eu hangen yn y dyfodol i ddysgu sgiliau newydd.



Fe wnaethon ni ysgrifennu cynllun am gyflogaeth o'r enw **Cymru Gryfach, Decach, Gwyrddach: cynllun ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau.**

Nod y cynllun yma ydy:

- Rhoi cefnogaeth i bobl dan 25 oed i weithio, dysgu, hyfforddi neu redeg eu busnes eu hunain.





- Gwneud pethau'n fwy teg i bobl sydd heb gael cyfle teg. Er enghraifft, pobl anabl, menywod, a phobl ddu, a phobl o gymunedau Asiaidd a **lleiafrifoedd ethnig**.

- Gofyn i gyflogwyr wneud gwaith yn fwy teg, yn well, ac yn fwy diogel.

- Gwneud pobl yn fwy medrus a chymwys – mae hyn yn meddwl bod ganddyn nhw hyfforddiant ffurfiol i wneud gwaith penodol.




Ystafell hyfforddi

Economi mwy cryf

Rydyn ni eisiau **economi** sydd yn:



- **Tyfu** – mae hyn yn meddwl bod pobl yn ennill mwy o arian, ac mae'r pethau mae pobl eu hangen yn fwy fforddiadwy.
- **Yn gweithio gyda'i gilydd i ddatrys problemau.**
- **Yn defnyddio technoleg newydd.**
- **Yn defnyddio dim ond beth sydd ei angen arno.**
- **Yn deg.**



Mae ein cynllun yn gweithio ochr yn ochr gyda chynllun y DU ar gyfer **arloesi**.

Rydyn ni eisiau i Gymru fod yn fwy llwyddiannus wrth gael cyllid ar gyfer **arloesi**.


Mae angen i ni gydweithio gyda busnesau, prifysgolion, a sefydliadau i wneud hyn.

Fe fyddwn ni'n cefnogi ac yn ariannu busnesau Cymru i fod yn **arloesol**.

Fe fyddwn ni yn sicrhau bod gwneud cais am gyllid yn fwy hawdd ac yn fwy teg.

Caffael

Mae **caffael** yn meddwl y cynnyrch a'r gwasanaethau mae gwasanaethau cyhoeddus fel y GIG yn **eu prynu** gan sefydliadau eraill.



Mae angen i ni feddwl yn ofalus am sut rydyn ni'n gwario'n harian.

Mae angen i ni wneud yn siŵr bod y cynnyrch a'r gwasanaethau rydyn ni'n eu prynu yn cefnogi ein nodau llesiant.



Mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod ni yn delio gyda phroblemau mewn ffordd fydd yn parhau am gyfnod hir. Ac a fydd yn well i'r blaned.

Fe fyddwn ni yn parhau i ymchwilio i sut rydyn ni yn trefnu ac yn prynu gwasanaethau ac i wneud systemau **caffael** yn well.

Helpu Busnesau

Fe fydd **Busnes Cymru** a gwasanaethau tebyg yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael yr wybodaeth gywir i'w helpu nhw i fod yn fwy arloesol.



Fe fydd **Banc Datblygu Cymru** hefyd yn benthycu arian i fusnesau i'w helpu nhw i **arloesi**.

Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pawb yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn **arloesi**:

- Drwy fod yn **arloesol** eu hunain.
- Neu helpu pobl eraill i fod yn **arloesol**.
- Neu drwy fwynhau canlyniadau **arloesi**.



Fe fyddwn ni'n sicrhau bod pobl yng Nghymru yn gwybod beth ydy **Arloesedd**. A sut mae'n gallu bod o fudd iddyn nhw.

Fe fyddwn ni'n cefnogi sefydliadau sy'n newydd i **arloesi**.



Fe fyddwn ni yn eu helpu nhw i ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau newydd. Neu i ddefnyddio **arloesedd** newydd yn eu gwaith.



Fe fyddwn ni'n helpu sefydliadau i warchod eu syniadau. Ac fe fyddwn ni yn ceisio bod yn fwy teg wrth ariannu **arloesedd**.

Fe fyddwn ni'n rhoi arian i sefydliadau, prifysgolion a lleoedd sy'n gweithio'n dda gyda'n hamcanion.



Y cyfleoedd i dyfu

Mae angen edrych ar beth sy'n digwydd mewn gwledydd eraill a gweld sut maen nhw'n bod yn **arloesol**.

Mae angen i ni ddod o hyd i'r cyfleoedd gorau i Gymru ddatblygu a thyfu.


Mae yna gyfleoedd i dyfu **arloesedd** yng Nghymru.
Er enghraifft, rydyn ni'n gallu bod yn fwy **arloesol** yn:

- Defnyddio technoleg i wneud pethau a darparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwell.
- Lleihau faint o garbon deuocsid rydyn ni'n ei ollwng wrth wneud pethau. Mae carbon deuocsid yn nwy sy'n niweidiol i'r amgylchedd.
- Ffermio a bwyd.
- Swyddi mewn meysydd fel y celfyddydau, crefftau, ffasiwn, dylunio, ffilm, gemau cyfrifiadurol ac ysgrifennu.
- Defnyddio technoleg gyda bioleg i wella pethau fel iechyd, ffermio cefnforoedd a gwneud pethau i'w gwerthu. Gelwir hyn yn **biotechnoleg**.



- Deunyddiau a **gweithgynhyrchu**.

Gweithgynhyrchu ydy gwneud pethau ar raddfa fawr (fel arfer gyda pheiriannau).




Fe wnaethon ni ysgrifennu cynllun am **weithgynhyrchu** o'r enw **Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru** yn 2021.

Mae'r cynllun yma yn dweud wrthyn ni:

- sut mae Cymru yn gallu gwneud mwy o gynnyrch;
- sut i wneud yn siŵr bod staff yn fwy medrus;
- a sut rydyn ni'n gallu gofalu am yr amgylchedd hefyd.

Arloesi digidol



Fe wnaethon ni hefyd ysgrifennu cynllun o'r enw **Strategaeth Ddigidol i Gymru**. Mae'r cynllun yma yn dweud sut mae technoleg ddigidol – fel cyfrifiaduron a pheiriannau, yn gallu gwneud bywyd yn well yng Nghymru.

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio technoleg.

A'u bod nhw'n gallu defnyddio technoleg ac **arloesi** gyda'i gilydd.

Rydyn ni yn rhoi cymorth i brosiect **Cyflymu Cenedl Ddata Cymru**.



Mae'r project yma yn gweithio gyda phrifysgolion i edrych ar ffyrdd o ddefnyddio technoleg mewn gwasanaethau cyhoeddus. Fe fydd hefyd yn edrych ar:

- Iechyd a lles.
- Gofalu am yr amgylchedd.
- **Gweithgynhyrchu** a systemau.
- Gwasanaethau creadigol a phroffesiynol.



Rydyn ni hefyd yn gwybod bod yna rai pobl yng Nghymru sydd ddim yn defnyddio'r rhwyngwyd.



Hyderus

Mae angen i ni helpu pobl i ddod yn hyderus i ddefnyddio'r we. Bydd hyn yn helpu:



- Arbed amser ac arian.


- Gwella iechyd a lles.



- Rhoi mwy o gyfleoedd i ddod o hyd i waith.

Meddwl am ein planed a gofalu amdani

Mae'r amgylchedd yn bwysig inni.



Mae angen inni feddwl am yr amgylchedd wrth feddwl am **arloesi**.

Mae amgylchedd gwell yn rhoi bywydau mwy iach ac economi mwy iach i bobl.

Mae **arloesi** yn gallu helpu'r amgylchedd drwy:

- Lleihau gwastraff.
- Cynhyrchion parhaol hirach.
- Ailgylchu – gwneud gwastraff yn bethau defnyddiol.
- Ailddefnyddio.
- Trwsio.



Fe fyddwn ni'n cefnogi busnesau i osgoi gwastraff, ailgylchu mwy ac i ofalu am bethau.

Mae busnesau yn gallu cael cyngor ar wella beth maen nhw'n ei wneud.



Mae gan Gymru gynllun i leihau faint o garbon mae'n ei wneud. Mae carbon yn gemegyn sy'n niweidio'r amgylchedd. Enw'r cynllun ydy Cymru **Sero Net**.


Fe fydd meddwl am ba ddeunyddiau rydyn ni'n eu defnyddio, ac o lle maen nhw'n dod yn helpu i leihau carbon.



Mae cludo cynhyrchion am bellteroedd byrrach yn helpu i ostwng carbon hefyd.

Gweithio gyda gwledydd eraill


Mae cydweithio gyda gwledydd eraill yn gallu helpu ein **heconomi**.



Fe wnaethon ni ysgrifennu cynllun ar gyfer hyn yn 2020 o'r enw **Strategaeth Ryngwladol i Gymru**.

Mae'r cynllun eisiau:

- Gwneud Cymru'n adnabyddus ar draws y byd.
- Tyfu ein **heconomi** drwy weithio ar draws y byd.
- Denu cyllid ac arian.




Rydyn ni wedi creu perthynas gyda gwledydd eraill.

Ac fe fyddwn ni'n helpu busnesau Cymru i greu perthynas gyda nhw hefyd.

Gofal iechyd da

Rydyn ni eisiau gwasanaethu iechyd a gofal cymdeithasol newydd, gwell.



Coronafeirws
COVID-19

Adfer o COVID-19

Fe wnaeth pandemig COVID-19 newid y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.

Roedd yn gwneud i wasanaethau iechyd a chymdeithasol feddwl yn wahanol am sut maen nhw'n gwneud pethau.



Rydyn ni yn credu ei bod yn bwysig darparu arian ar gyfer **arloesedd** mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol fel bod:

- Pobl yn gallu aros yn eu cartrefi eu hunain.
- Pobl yn gallu cael triniaeth.



- Rydyn ni yn lleihau'r amser mae pobl yn gorfod bod ar restrau aros.

- Mae gennym ni wasanaethau rydyn ni'n gallu eu rhedeg am amser hir.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac Arloesi

Mae angen mwy o arweinwyr **arloesi** ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.



Fe fyddwn ni yn cefnogi **arloesedd** ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. A rhannu beth sy'n gweithio'n dda gyda gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill.

Fe fyddwn ni'n cefnogi arweinwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wneud pethau.

Fe fydd gwasanaethau
Llywodraeth Cymru, GIG
a Gofal Cymdeithasol yn
gweithio gyda'i gilydd.



Fe ddylai arweinwyr a
rheolwyr gefnogi eu staff
i weithio gyda'i gilydd i fod
yn fwy **arloesol**.

Fe fyddwn ni'n cefnogi
arweinwyr iechyd a gofal
cymdeithasol i feddwl am
y risgiau wrth roi cynnig ar
bethau newydd.

Cyllid

Fe fyddwn ni yn ceisio cael
cyllid sydd yn gallu talu am
brosiectau **arloesi** yn hirach.



Fe fyddwn ni yn gweithio gyda
Llywodraeth y DU i edrych ar
ffyrdd rydyn ni'n gallu creu
canolfannau **arloesi**.



Fe fydd y canolfannau yma yn helpu i greu perthynas rhwng gofal iechyd, prifysgolion, a busnesau.

Fe fyddwn ni yn creu 1 porth ariannu ar gyfer gwneud cais am arian ar gyfer prosiectau **arloesi** mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Gwefan ydy porth ariannu. Fe fydd pobl yn gallu ei ddefnyddio i edrych ar yr holl gyllid mewn 1 lle. A gwneud cais amdano mewn 1 lle, yn yr un ffordd.

Gofod adeiladau a sgiliau

Rhaid i ni adeiladu mwy o le a sgiliau mewn **arloesi** ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Fe fydd hyn yn helpu i gefnogi ffyrdd newydd o weithio a meddwl.

Fe fyddwn ni yn creu rhaglen hyfforddi ar gyfer **arloesi**.

Fe fyddwn ni hefyd yn creu canllawiau gydag offer ac adnoddau defnyddiol.

Arloesi mewn Gofal Cymdeithasol

Fe wnaeth **Gofal Cymdeithasol Cymru** **ymchwilio** i sut y maen nhw'n gallu cefnogi **arloesedd** yn well ym maes gofal cymdeithasol.



Mae angen i ddarparwyr gofal cymdeithasol gydweithio'n well ar syniadau a ffyrdd newydd o weithio.

Fe wnaeth yr **ymchwil** ddangos y dylai **Gofal Cymdeithasol Cymru**:

- Helpu darparwyr gofal cymdeithasol i rannu dysgu.
- Datblygu ffyrdd o rannu syniadau ac adnoddau.
- Cynnwys arloesi mewn contractau gofal cymdeithasol.





Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwneud cynllun **arloesi**. Bydd hyn yn cynnwys:

- Creu perthynas i gefnogi **arloesi**.
- Cefnogi arloesi drwy gyflogi tîm o arbenigwyr i helpu i feithrin sgiliau.
- Cyngor ar sut i adeiladu sgiliau.
- Gwefan newydd i ddangos dysgu a syniadau newydd.
- Cefnogaeth i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol i feddwl beth oedd yn gweithio'n dda a beth oedd ddim yn gweithio'n dda.



Arloesi digidol mewn iechyd a gofal cymdeithasol



Mae technoleg ddigidol yn bwysig ar gyfer iechyd a Gofal Cymdeithasol i:

- Gofalu am ddata a gwybodaeth.
- Helpu pobl ar-lein.
- Ar gyfer gwybodaeth.

Rydyn ni wedi rhoi cyllid i'r GIG fod yn well gyda thechnoleg ddigidol.



Ond rydyn ni'n gwybod ein bod ni yn gallu gwneud mwy. Rydyn ni yn ysgrifennu cynllun ar gyfer iechyd digidol.

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol



Mae'r llywodraeth yn rhoi llawer o arian ar gyfer **ymchwil** Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r **ymchwil** yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl a'u gofal iechyd.



Mae'r **ymchwil** hefyd yn dod â swyddi, cynnyrch a gwasanaethau newydd. Ac mae hyn yn dod â mwy o arian i'n **heconomi**.

Mae angen mwy o **ymchwil** ac **arloesi** yng Nghymru i wneud i'n hiechyd a'n gofal cymdeithasol weithio'n well.

Arloesi a chaffael ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae Llywodraeth y DU yn
newid y ffordd y byddwn
ni'n defnyddio **caffael**.



Fe fydd y newidiadau yma yn
gwneud gwahaniaeth i ofal
iechyd a gofal cymdeithasol
yng Nghymru.

Ac mae angen i ni wneud yn
siŵr bod GIG Cymru yn cael yr
wybodaeth ddiweddaraf.



Rydyn ni eisiau i'r GIG a
darparwyr gwasanaethau
weithio gyda'i gilydd i
ddatblygu gwasanaethau.


Yr amgylchedd a lechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae angen i'r Gwasanaethau
lechyd a Gofal Cymdeithasol
feddwl hefyd am ein cynllun
Sero Net Cymru.

Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Fe wnaeth Rhaglen Genedlaethol Frys gael ei sefydlu i feddwl am yr amgylchedd.

Fe wnaeth y GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud cynlluniau am leihau carbon.



Cefnogi cynllun gweithredu arloesi

Fe fyddwn ni yn gwneud cynllun gweithredu i helpu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i fod yn fwy **arloesol**.

Fe fydd y cynllun yn:

- Gwneud yn glir pwy sy'n gwneud beth mewn **arloesedd**.

-
- Edrych ar beth sy'n bwysig a beth sydd angen ei newid.
 - Ei gwneud hi'n haws i wneud i **arloesi** ddigwydd mewn mwy o lefydd yn gyflym.

Fe fyddwn ni yn edrych ar:

- Sut mae'r newidiadau wedi gwneud gwahaniaeth i gleifion.
- Sut mae cleifion yn teimlo am y newidiadau.
- Sut mae adnoddau wedi cael eu defnyddio'n dda.



Rydyn ni yn credu bod **arloesedd** ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu bod yn well i'n **heconomi**.



Meddwl am ein planed a gofalu amdani

Rydyn ni eisiau gwneud y gorau o beth sydd gan natur Cymru i'w gynnig.

Ac rydyn ni am wneud iddo barhau'n hir.

Mae natur, tir, ac aer yn adnoddau pwysig iawn i ni.

Ond dydyn ni ddim wedi bod yn dda iawn am edrych ar eu holau nhw.

Mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod ni'n gofalu am natur yn y dyfodol fel ei fod yn gallu parhau am amser hir.

Fe wnaethon ni ddeddf i ofalu am yr amgylchedd. Ei henw ydy **Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**.





Mae'r ddeddf yma yn dweud wrthyn ni sut y dylen ni ofalu am ein **hadnoddau naturiol**. Mae **adnoddau naturiol** yn bethau o fyd natur rydyn ni'n eu defnyddio i wneud ynni, fel olew, glo, nwy, dŵr a gwynt.

Mae'r ddeddf yma hefyd yn dweud wrthyn ni fod angen i ni ailgylchu mwy, gan gynnwys busnesau.

Cyfarfod ein Cynllun Newid Hinsawdd

Trydan a Gwres



Mae'r rhan fwyaf o'n ynni yn dod o **danwydd ffosil**. Mae **tanwydd ffosil** yn bethau o fyd natur rydyn ni yn gallu eu llosgi i wneud ynni. Ond maen nhw'n rhedeg allan ac mae eu defnyddio nhw'n ddrwg i'r amgylchedd.

Mae'n rhaid i ni newid sut rydyn ni'n defnyddio ynni a lle rydyn ni'n cael ynni.

Fe fydd **arloesi** yn ein helpu i wneud hyn drwy:



- Darganfod ffyrdd o storio pŵer a bod yn gallach.
- Dyluniadau newydd i ffermydd gwynt allan yn y môr.
- Newid y ffordd rydyn ni'n gwneud pethau.
- Gwneud ynni sy'n gollwng llai o garbon yn rhatach i'w ddefnyddio.

Mae angen i lywodraeth y DU barhau i gyllido **arloesi** ar gyfer yr amgylchedd.

Ac fe ddylai busnesau roi arian ar gyfer technolegau newydd.



Gwresogi arloesol yn ein hadeiladau

Mae **arloesi** yn gallu helpu i wneud cadw adeiladau ar y tymheredd cywir yn rhatach.

Rydyn ni'n gallu gwneud mwy i wneud technolegau yn fwy fforddiadwy.

Fel cynnig grantiau neu fenthyciadau cost isel. Dyma pryd rydych chi'n benthyg arian, ac yn talu ychydig o dâl am y gwasanaeth hwnnw.

Fe fyddwn ni yn cefnogi pobl i wneud eu cartrefi'n well i'r amgylchedd.

Arloesi mewn trafnidiaeth



Rydyn ni'n gallu gwneud mwy i fod yn **arloesol** gyda thrafnidiaeth.

Fel pobl sy'n rhannu ceir a beiciau. A chynnig gwell gwasanaethau trafnidiaeth.

Fe fydd **cludiant allyriadau sero** fel ceir trydan a bysus hefyd yn helpu. Mae **allyriadau sero** yn meddwl nad ydy'r cerbydau hyn yn gollwng nwyon niweidiol pan fyddan nhw'n cael eu defnyddio.

Mae ein cynllun ar gyfer Trafnidiaeth Cymru o'r enw **Llwybr Newydd** yn bwriadu:



- Defnyddio technoleg mewn ffyrdd newydd i reoli trafnidiaeth a ffyrdd.

- Bod yn fwy **arloesol** gyda chynllunio teithiau, prynu tocynnau a rhoi gwybodaeth.

- Edrych ar ddefnyddio tanwydd newydd sy'n well i'r amgylchedd.

- Ceisio cael mwy o fusnesau i gludo nwyddau ar y trên yn lle'r ffyrdd.



Bwyd

Mae angen inni gydweithio i ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol i:



- ffermio a gwneud bwyd;
- ei gludo a'i werthu;
- llai o wastraff ac ailddefnyddio beth rydyn ni'n gallu.

Mae angen i ni weithio gyda:



- busnesau;
- y gadwyn gyflenwi – sut mae bwyd yn cael ei gymryd a'i becynnu, ei gludo a'i werthu i bobl;
- prifysgolion ac ymchwilwyr;
- a'r cyhoedd.

Mae angen i ni feddwl am sut
i ofalu am ein hamgylchedd
a'n tir tra'n gwneud bwyd
sy'n dda i bobl.



Rydyn ni yn cefnogi ffermwyr
i wneud hyn drwy'r Bil
Amaethyddiaeth (2022) a'r
Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Rydyn ni yn gweithio gyda
phartneriaid ar draws y
DU a Llywodraethau eraill
ar brosiect ymchwil mawr
o'r enw 'Adeiladu Dyfodol
Gwyrdd – Trawsnewid
Amaethyddiaeth ar gyfer
yr hinsawdd, natur a phobl'.



Mae hyn yn ffordd dda
o weithio nawr ein bod ni
wedi colli cyllid gan yr Undeb
Ewropeaidd ers Brexit.

Rheoli ein hadnoddau naturiol

Mae adnoddau naturiol yn bwysig i'n bywydau ni. Maen nhw'n gwneud y llefydd rydyn ni'n byw, yn gweithio, ac yn ymweld â nhw yn well.



Mae **arloesi'n** bwysig i'n helpu ni i fod yn well am ofalu am natur a'r amgylchedd.

Mae angen i ni newid y ffordd rydyn ni'n gwneud pethau i wneud gwahaniaeth.

Rydyn ni angen i bobl a busnesau weithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i'r newidiadau a fydd yn gwneud gwahaniaeth.



Hefyd mae angen i bobl newid sut maen nhw'n byw fel eu bod nhw'n gallu byw mewn ffordd sy'n well i'r amgylchedd.



Adfer Natur

Mae Cynllun Gweithredu
Adfer Natur Cymru 2021 yn
dweud wrthyn ni beth sydd
angen i ni ei wneud i helpu
byd natur i wella.

Rydyn ni'n gallu bod yn well
am amddiffyn ein tir, dŵr a'n
môr i'w helpu i fod yn ddigon
cryf ar gyfer y dyfodol.

Mae angen sefydliadau,
busnesau, a chymunedau
i helpu gyda hyn.

Fe fyddwn ni yn rhoi mwy o gyngor ac adnoddau i bobl a busnesau i edrych arnyn nhw pan maen nhw'n cynllunio adeiladau newydd.

Ein coedwigoedd a'n moroedd

Coedwigoedd



Mae angen i ni ofalu am ein coedwigoedd hefyd.

Mae plannu rhagor o goed yn gallu helpu:

- brwydro yn erbyn newid hinsawdd;
- creu mwy o swyddi;
- helpu pobl i gael llesiant gwell;
- helpu i atal llifogydd;
- a gwella ein aer.



Rydyn ni hefyd angen defnyddio mwy o bren wrth adeiladu a gwneud pethau. Mae gennym gyfle da i wneud arian o werthu pren.

I helpu gyda hyn, mae angen inni **arloesi** yn y ffordd rydyn ni yn:



- adeiladu;
- defnyddio pren ym mhob diwydiant;
- defnyddio pob rhan o goeden i wneud pethau.

Rydyn ni wedi dechrau cynllunio ac ymchwilio i sut y gallwn ddefnyddio coed i wneud arian tra'n gofalu am yr amgylchedd.

Ein moroedd



Mae Cymru wedi ei hamgylchynu gan arfordir – y tir sydd wrth ymyl y môr. Mae'r môr yn bwysig. Rydyn ni'n gallu cael llawer o bethau da o'r môr:



- Bwyd iach;
- Ynni;
- Deunyddiau adeiladu;
- A swyddi.

Mae gennym ni geblau o dan y môr sy'n ein cysylltu â gweddill y byd – dros y ffôn a'r rhynggrwyd.



Rydyn ni hefyd yn gwneud llawer o arian trwy dwristiaeth – pobl yn teithio i Gymru ar gyfer gwyliau a hwyl. Mae'r môr a'n harfordir ni yn bwysig i dwristiaeth. Mae pobl yn hoffi mynd i'r traeth, gweld y golygfeydd a gwneud gweithgareddau yn y môr.



Rhaid i ni ddod o hyd i ffyrdd newydd ac **arloesol** o bysgota ac edrych ar ôl y planhigion a'r anifeiliaid yn y môr.

Mae angen i ni ddefnyddio technoleg i ddysgu mwy am fywyd y môr. A deall sut rydyn ni'n gallu gwneud y mwyaf o'r môr wrth ofalu amdano.

Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod mwy am beth rydyn ni'n ei wneud



Fe fyddwn ni yn helpu pobl i ofalu am fyd natur yn eu hardaloedd.

A gwneud yn siŵr eu bod nhw yn gwybod beth ydy'r ffordd orau o wneud hyn.

Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod gan bobl y sgiliau i wneud hyn.



Fe fyddwn ni yn helpu i gael arian i adfer byd natur. Mae hyn yn meddwl dod â phethau fel planhigion ac anifeiliaid oedd yn arfer byw mewn lleoedd yn ôl.

Ac fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr ein bod yn cadw llygad ar y gwahaniaethau sy'n cael eu gwneud.

Geiriau Anodd

Economi

Mae economi yn meddwl faint o arian sydd gan wlad. Os oes gan wlad fwy o arian, mae'n dda i bobl y wlad honno.

Arloesedd

Mae arloesi yn meddwl datblygu syniadau newydd mewn cynnyrch a gwasanaethau. Mae'n gallu meddwl dyfeisio pethau newydd. Neu gwneud i bethau hŷn weithio'n well.

Gweithgynhyrchu

Mae gweithgynhyrchu yn meddwl gwneud cynnyrch ar raddfa fawr (fel arfer gyda pheiriannau).

Caffael

Mae caffael yn meddwl y cynnyrch a'r gwasanaethau y mae gwasanaethau cyhoeddus fel y GIG yn eu prynu gan sefydliadau eraill.

Ymchwil

Mae ymchwil yn meddwl edrych i mewn i rywbeth, neu brofi rhywbeth i'w ddeall yn fwy.